**Grid Gweithredu ar 29 Ebrill 2014**

**Cyngor Adnewyddu'r Economi**

| **Camau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2014** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfeirnod yn y Nodiadau | Cam Gweithredu | Cynnydd | Gweithredu pellach | Statws |
| 2.2 | Swyddogion Llywodraeth Cymru i ddosbarthu papurau ar gyfer Cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi 28 niwrnod cyn y cyfarfod | ***Swyddogion i ddosbarthu papurau 28 niwrnod cyn cyfarfodydd y Cyngor.*** | | |
| 2.3 | Aelodau'r Cyngor i roi eu sylwadau ysgrifenedig am strwythur y Cyngor i Tracey Burke. | ***Papur i'w drafod ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Cyngor ym mis Mehefin.*** | Caiff y dull gweithredu cytunedig ynghylch dyfodol cyfarfodydd y Cyngor a'i aelodaeth ei gynnwys yn y Cynllun Busnes diwygiedig. | Parhaus |
| 2.5 | Aelodau'r Cyngor i roi eu sylwadau ysgrifenedig am safbwyntiau eu sefydliad ynghylch HS2 i Tracey Burke. | ***Cafwyd chwe ymateb gan y partneriaid Cymdeithasol ond ni chafwyd consensws er mwyn cefnogi'r cam o gyhoeddi hysbysiad yn mynegi gwrthwynebiad i brosiect HS2.*** | Ni chaiff hysbysiad ei baratoi | Wedi'i gwblhau |
| 3.27 | Aelodau'r Cyngor i roi eu sylwadau ysgrifenedig am y Fframwaith Economaidd cyn pen 21 niwrnod (24 Chwefror). Swyddogion i baratoi dogfen derfynol cyn pen 21 niwrnod pellach. | ***Yn dilyn cais gan y Partneriaid Cymdeithasol, estynnwyd y terfyn amser i 14 Mawrth. Mae swyddogion wedi paratoi'r ddogfen derfynol, sef papur i'w nodi yn ystod cyfarfod y Cyngor ym mis Mehefin.*** | Cyhoeddi Fframwaith Economaidd fel papur i'w nodi ar gyfer cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi ym mis Mehefin | Wedi'i gwblhau |
| 4.9 | Paul Byard i ddarparu rhestr o fesurau *(y mae EEF yn teimlo y byddant yn dechrau lleddfu effaith prisiau trydan diwydiannol cymharol uchel y DU) i* | ***Cafwyd gwybodaeth ac fe'i dosbarthwyd i'r Partneriaid Cymdeithasol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn adolygu*** | Darparir ymateb cyn cyfarfod y Cyngor ar 2 Mehefin. | Parhaus |

| Camau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2014 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfeirnod yn y Nodiadau | Cam Gweithredu | Cynnydd | Gweithredu pellach | Statws |
| | Tracey Burke er mwyn ei dosbarthu i aelodau'r Cyngor. Llywodraeth Cymru i'w hystyried ac i ymateb. | ***ac yn coladu ymateb traws bortffolio*** | | |
| 4.10 | Martin Mansfield i rannu gwaith ymchwil TUC ynghylch cyflogaeth a diwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni gyda swyddogion. | ***Cafwyd gwybodaeth 'Twf Gwyrdd – Dim Troi'n Ôl' ac fe'i dosbarthwyd i'r swyddogion, a bydd yr adroddiad llawn yn cael ei ddarparu gan TUC Cymru pan fydd ar gael.*** | | Parhaus |
| 7.3 | Cyfeiriodd Ben Cothau (ACCA) at y ffaith bod sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch yn peri i lai o gyrsiau proffesiynol fod ar gael. Penderfynodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gyfeirio'r mater hwn i'r paneli sector er mwyn cael eu safbwyntiau ac er mwyn iddynt adrodd yn ôl i'r Cyngor.<br><br>**Llywodraeth Cymru i adrodd yn ôl yn ystod cyfarfod y Cyngor ym mis Mehefin.** | ***Penderfynodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gyfeirio'r mater hwn i'r Panel Sector Gwasanaethau Proffesiynol ac Ariannol sydd wedi ystyried y mater hwn, a'u barn nhw yw nad ydynt wedi nodi problem yn hyn o beth hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog wedi codi'r mater hwn gyda'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg er mwyn gallu monitro hyn.*** | | Wedi'i gwblhau |
| | | | | |